

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

Bil yr Amgylchedd
(Cymru)

Gorffennaf 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



**Y Gwasanaeth
Ymchwil**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:C
cynulliad.cymru/Ymchwil

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Ymchwil@Cynulliad.Cymru
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 15/1446
Rhif dogfen:15/030

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

Bil yr Amgylchedd
(Cymru)

Gorffennaf 2015

Nia Seaton, Helen Jones a Stephen Boyce

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynnwys

Bil yr Amgylchedd (Cymru)	1
Cyflwyniad	1
1. Cefndir	2
1.1. Cymhwysedd deddfwriaethol	2
1.2. Datblygiad y Bil	2
1.2.1. Y Papur Gwyn	2
1.2.2. Newidiadau allweddol a wnaed ers y Papur Gwyn	2
1.3. Amcanion polisi'r Bil	4
2. Prif ddarpariaethau Bil yr Amgylchedd (Cymru)	5
Rhan 1: Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol	5
Rhan 2: Newid yn yr Hinsawdd	6
Rhan 3: Bagiau Siopa	7
Rhan 4: Casglu a Gwaredu Gwastraff	7
Rhan 5: Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn	7
Rhan 6: Trwyddedau Morol	8
Rhan 7: Amrywiol	8
Atodlenni	9
3. Goblygiadau Ariannol y Bil	10
3.1. Costau a manteision ychwanegol yr opsiynau a ffefrir	10
3.2. Costau a manteision net ychwanegol yr opsiynau a ffefrir fesul grŵp neu'r sefydliad yr effeithir arno	11
3.3. Costau ychwanegol net	12
3.4. Gwerth ariannol y manteision	13
3.5. Is-ddeddfwriaeth	13
4. Ymatebion i'r Bil	14
4.1. Rhanddeiliaid	14
4.2. Aelodau'r Cynulliad	14

Bil yr Amgylchedd (Cymru)

Cyflwyniad

Gosodwyd [Bil yr Amgylchedd \(Cymru\)](#) gerbron y Cynulliad ar 11 Mai 2015. Cyflwynwyd y Bil yn y Cyfarfod Llawn gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar 12 Mai 2015. Mae'r Bil y trydydd mewn cyfres o Filiau cysylltiedig gyda chysylltiadau rhwng y Bil hwn a *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* a *Bil Cynllunio (Cymru) 2015*.

Yn ei [ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn](#), dywedodd y Gweinidog:

Os caiff ei phasio, bydd y ddeddfwriaeth hon yn sefydlu'r ddeddfwriaeth sylfaenol sydd ei hangen i reoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy yn unol â'r fframwaith yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn ategu'r diwygiadau deddfwriaethol ehangach yr wyf yn eu cyflwyno drwy Fil Cynllunio (Cymru).

Mae'r Bil yn un helaeth ac mae ganddo saith rhan amlwg sy'n cwmpasu wyth maes polisi gwahanol.

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi trosglwyddo'r Bil i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'w ystyried. Dylai'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad erbyn 9 Hydref 2015.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 4 Rhagfyr 2015, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi cynnal [ymgyngoriad](#) ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a ddaeth i ben ar 12 Mehefin 2015. Dechreuodd y Pwyllgor gymryd tystiolaeth lafar ar 24 Mehefin 2015.

1. Cefndir

1.1. Cymhwysedd deddfwriaethol

Dywed y Memorandwm Esboniadol (yn adran 2) bod testun y Bil yn dod o fewn y rhestr o bynciau yn Rhan 1 o Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2008*, a'i fod felly o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Mae'r memorandwm esboniadol yn rhestru'r pynciau perthnasol yn Atodlen 7, sef: 1. *Amaethyddiaeth, coedwigaeth, anifeiliaids, planhigion a datblygu gwledig*; 6. *Yr amgylchedd*; a 19. *Dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd*, ac yn nodi nad yw'r eithriadau a nodir yn Rhan 1 o Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn berthnasol.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi hefyd bod Rhan 1 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n rhoi swyddogaethau i Weinidogion y Goron, ac felly mae angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Pan gafodd y Bil ei gyflwyno, roedd trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth y DU, gyda'r bwriad o gael cydsyniad.

1.2. Datblygiad y Bil

Ym mis Hydref 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar Fil yr Amgylchedd, sef ['Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy: Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd'](#). Roedd y Papur Gwyn yn dilyn dau ymgynghoriad blaenorol ar gyfeiriad rheoli adnoddau naturiol; *'Cymru Fyw: ein fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd'* yn 2010 a'r [Papur Gwyrdd 'Cynnal Cymru Fyw' yn 2012](#).

1.2.1. Y Papur Gwyn

Roedd y Papur Gwyn yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru yn y Bil ar gyfer rheoli adnoddau naturiol, bagiau siopa, rheoli gwastraff, pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn, trwyddedu morol, draeniad tir a rheoli llifogydd a dŵr. Mae rhai o'r cynigion manwl ar gyfer y pynciau a nodwyd yn y Papur Gwyn wedi cael eu diwygio neu heb gael eu cynnwys yn y Bil. At hynny, ni chyfeirir yn y Papur Gwyn at dargedau newid yn yr hinsawdd na newid i'r ddyletswydd bioamrywiaeth.

1.2.2. Newidiadau allweddol a wnaed ers y Papur Gwyn

Mewn perthynas â Rhan 1 o'r Bil ar Adnoddau Naturiol, mae'r diffiniadau ar gyfer adnoddau naturiol a rheolaeth gynaliadwy wedi'u hehangu a'u diwygio yn y Bil. At hynny, mae'r Bil yn cynnwys rhestr o'r egwyddorion allweddol ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, na chawsant eu cynnwys yn y Papur Gwyn. Nid ymgynghorwyd ar y cynnig yn y Bil i gryfhau'r ddyletswydd bioamrywiaeth gyfredol ar awdurdodau cyhoeddus fel rhan o'r Papur Gwyn. Nid yw'r cynigion i roi pwerau i Cyfoeth Naturiol Cymru ysgogi'r defnydd o daliadau am wasanaethau'r ecosystem a gwneud defnydd o Reolau Rhwymo Cyffredinol o fewn y Papur Gwyn wedi'u datblygu yn y Bil. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn y Memorandwm

Esboniadol y bydd y newidiadau hyn yn adlewyrchu'r ymatebion a gafwyd gan randdeiliaid i'r Papur Gwyn.

Ni chafodd y cynigion ar dargedau statudol mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd eu cynnwys yn wreiddiol yn yr ymgynghoriad Papur Gwyn ar y Bil. Yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, mae Llywodraeth Cymru yn nodi y cafodd y targedau eu cynnwys mewn ymateb i'r farn a fynegwyd yn adroddiad [Y Gymru a Garem](#). Cyhoeddodd yr Adroddiad ganfyddiadau'r sgwrs genedlaethol a gynhaliwyd gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ar ran Llywodraeth Cymru. Bwriad y gwaith oedd bwydo i mewn i'r gwaith a ddatblygu a gweithredu *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

At hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro y cafodd y penderfyniad i gynnwys targedau hinsawdd statudol ei ddylanwadu gan gyngor a roddwyd i Lywodraeth Cymru gan Bwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd, argymhellion a wnaed gan Gomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei waith ar y *Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* ac argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog a oedd yn nodi y dylid cynnwys cyllidebu carbon ar gyfer cyrff cyhoeddus yn y *Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*.

Mewn perthynas â'r darpariaethau ar wastraff, mae'r mwyafrif o'r darpariaethau yn y Bil yn adlewyrchu'r cynigion a geir yn y Papur Gwyn. Un eithriad oedd y cynnig i gydgrynhoi pwerau Gweinidogion Cymru i wahardd deunyddiau penodol o safleoedd tirlenwi nad ymddengys ei fod yn ymddangos yn y Bil.

Mewn perthynas â'r môr a physgodfeydd, mae'r darpariaethau ym Mil yr Amgylchedd mewn perthynas â thrwyddedu morol yr un peth â'r rheini yr ymgynghorwyd arnynt yn y Papur Gwyn ond mae rhai newidiadau wedi'u gwneud i'r darpariaethau mewn perthynas â physgodfeydd cregyn. Roedd y Papur Gwyn yn cynnig newid Gorchmynion Unigol a Gorchmynion Rheoleiddiedig fel y gall Gweinidogion Cymru gyfeirio at gynllun rheoli wrth gyflwyno Gorchmyn a fyddai'n nodi'r manylion am sut y byddai pysgodfa yn cael ei rheoli, heb fod angen cynnwys y wybodaeth hon ar wyneb Gorchmyn. Nid yw Bil yr Amgylchedd yn cyfeirio at gynlluniau rheoli, yn hytrach mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiadau gwarchod safle os cred fod rheolaeth pysgodfa pysgod cregyn a gwmpesir gan Orchmyn yn niweidio safle gwarchodedig.

Ni chaiff y cynnig i roi pwerau i Weinidogion Cymru er mwyn cydgrynhoi deddfau dŵr a geir yn y Papur Gwyn, ei gynnwys yn y Bil. Fodd bynnag, mae darpariaethau newydd ar sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol ar gyfer Cymru, newid sut y caiff hysbysiadau draenio mewnol eu dosbarthu a darparu ffordd newydd i awdurdodau lleol apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn unrhyw ardollau arbennig a gyflwynir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu cynnwys fel rhan o'r Papur

Gwyn, ond nid ymgynghorwyd arnynt. Mewn perthynas â'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol, mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn y Memorandwm Esboniadol bod yr angen am y ddarpariaeth hon wedi dod yn sgil yr adolygiad o'r Pwyllgor Reoli Peryglon Llifogydd presennol a gwblhawyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r darpariaethau ar ddraenio mewnol wedi dod yn sgil uno'r Byrddau Draenio Mewnol yn Cyfoeth Naturiol Cymru.

1.3. Amcanion polisi'r Bil

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig â'r Bil yn nodi'r amcanion polisi a ganlyn ar gyfer y ddeddfwriaeth:

- Rhoi deddfwriaeth ar waith a fydd yn galluogi adnoddau Cymru i gael eu rheoli mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig.
- Sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.
- Gwella'r defnydd o adnoddau mewn perthynas â defnyddio bagiau siopa a rheoli gwastraff.
- Egluro'r gyfraith ar gyfer nifer o gyfundrefnau rheoleiddio cyfredol, gan gynnwys trwyddedu morol, pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn, draenio tir a rheoli'r perygl o lifogydd.

2. Prif ddarpariaethau Bil yr Amgylchedd (Cymru)

Rhan 1: Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol

Mae'r rhan hon yn darparu diffiniadau newydd ar gyfer adnoddau naturiol, yn ailalinio diben statudol Cyfoeth Naturiol Cymru, yn darparu fframwaith ar gyfer cynllunio adnoddau naturiol ar sail ardal, yn cryfhau'r ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddiogelu bioamrywiaeth ac yn rhoi pwerau ehangach i Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â rheoli tir a chynlluniau arbrofol.

Mae'n gwneud hyn drwy:

- Ddarparu diffiniadau ar gyfer y termau 'adnoddau naturiol' a 'rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol' a rhestru egwyddorion ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.
- Disodli diben statudol cyfredol Cyfoeth Naturiol Cymru â diben newydd sydd wedi'i alinio â'r diffiniadau o reoli adnoddau naturiol a geir yn y Bil.
- Ei gwneud yn ddyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i baratoi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol. Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru wneud hynny am y tro cyntaf o fewn pedwar mis i'r Bil yn dod i rym ac yna cyn diwedd pob blwyddyn cyn etholiad y Cynulliad.
- Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol sy'n nodi'r cyfleoedd a'r blaenoriaethau ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yng Nghymru. Rhaid gwneud hyn o fewn deg mis i'r Ddeddf yn dod i rym ac yna ei adolygu ar ôl pob un o etholiadau cyffredinol y Cynulliad.
- Ei gwneud yn ddyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i baratoi a chyhoeddi 'datganiadau ardal' sy'n nodi'r peryglon, y blaenoriaethau a'r cyfleoedd mewn perthynas â rheoli adnoddau dynol o fewn ardal. Ni chaiff y term 'ardal' ei ddiffinio yn y Bil. Gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i gorff cyhoeddus gymryd camau i ddarparu datganiadau ardal a rhoddir dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gydweithredu â Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd ddarparu unrhyw wybodaeth a chymorth sy'n ofynnol ar gyrff cyhoeddus i ddarparu datganiadau ardal.
- Rhoi'r pwerau i Cyfoeth Naturiol Cymru lunio cytundebau rheoli tir gyda pherchnogion tir i hyrwyddo'r cyflawniad o unrhyw amcan o fewn ei swyddogaethau. Bydd y cytundebau hyn yn disodli cytundebau rheoli tir cyfredol mewn perthynas â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a nodau ehangach o ran cadwraeth natur.
- Rhoi pwerau arbrofol i Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu cynlluniau arloesol er mwyn cyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau. Gall Gweinidogion Cymru

gyflwyno rheoliadau er mwyn ildio gofynion statudol ar gyfranogwyr mewn cynllun o'r fath.

- Gosod dyletswydd newydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth ar bob awdurdod cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau yng Nghymru, gan gynnwys y rheini nad ydynt wedi'u datganoli ar hyn o bryd, e.e. yr heddlu. Bydd yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus adrodd ar gamau gweithredu i gyflawni'r ddyletswydd hon erbyn diwedd 2019, a bob tair blynedd wedi hynny.

Rhan 2: Newid yn yr Hinsawdd

Mae'r rhan hon yn creu cyllidebau a thargedau statudol mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd, yn darparu ar gyfer creu corff cyngori ar newid yn yr hinsawdd ac yn nodi dyletswyddau adrodd Gweinidogion Cymru yn unol â chyrraedd y targedau hyn.

Mae'n gwneud hyn drwy:

- Ei gwneud yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod 'allyriadau net Cymru' o ran nwyon tŷ gwydr yn o leiaf 80 y cant yn is na llinell sylfaen 1990-1995 erbyn 2050.
- Ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn nodi drwy reoliad o leiaf un targed interim ar gyfer lleihau allyriadau.
- Ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi cyllidebau carbon ar gyfer cyfnodau pum mlynedd a ddylai sicrhau y cyrhaeddir targedau allyriadau. 2016-2020 fydd y cyfnod cyllidebol cyntaf.
- Nodi darpariaethau ar gyfer ystyr 'allyriadau net Cymru', sefydlu unedau carbon, ystyr 'nwyon tŷ gwydr' a chyfrifo nwyon o awyrennau a llongau rhyngwladol.
- Ei gwneud yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i: baratoi a chyhoeddi adroddiad ar gyfer pob cyfnod cyllidebol gan nodi'r cynigion a'r polisiau ar gyfer cyllideb garbon; cyhoeddi datganiad terfynol ar gyfer pob cyfnod cyllidebol sy'n nodi os a pham mae cyllideb garbon wedi'i bodloni neu beidio; a chyhoeddi cynigion a pholisiau newydd ar gyfer lleihau allyriadau os ydynt wedi methu â bodloni cyllideb garbon.
- Caniatáu i Weinidogion Cymru sefydlu corff cyngori ar newid yn yr hinsawdd. Bydd yn ofynnol i'r corff roi cyngor ar sefydlu targedau interim, ffurfio a darparu cyllidebau carbon, cynnydd Gweinidogion Cymru tuag at gyrraedd y targedau a'r cyllidebau ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r diffygion mewn perthynas â chyrraedd y targedau a bodloni'r cyllidebau hyn.

Rhan 3: Bagiau Siopa

Mae'r Rhan hon yn rhoi pwerau rheoleiddio ehangach i Weinidogion Cymru leihau'r defnydd o fagiau siopa.

Mae'n gwneud hyn drwy:

- Roi pwerau ehangach i Weinidogion Cymru godi tâl ar unrhyw fagiau siopa yn hytrach na bagiau siopa untro fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.
- Galluogi Gweinidogion Cymru i bennu taliadau amrywiol ar gyfer mathau gwahanol o fagiau siopa.
- Ei gwneud yn ofynnol i enillion net unrhyw dâl gael eu cyfeirio at achosion elusennol.
- Caniatáu penodi gweinyddwr i oruchwylio a gorfodi'r cynllun.
- Gwneud y tâl yn amodol ar gyfundrefn cydymffurfio a gorfodi Sanctiynau Sifil.

Rhan 4: Casglu a Gwaredu Gwastraff

Mae'r Rhan hon yn rhoi pwerau rheoleiddio ehangach i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chasglu gwastraff ar wahân, gwaredu gwastraff drwy losgi, a gwaredu gwastraff bwyd i garthffos.

Mae'n gwneud hyn drwy:

- Roi pwerau estynedig i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol bod gwastraff yn cael ei gasglu ar wahân.
- Ei gwneud yn ofynnol i fusnesau neu sefydliadau gyflwyno gwastraff i'w gasglu yn unol ag unrhyw ofynion gwahanu sydd wedi'u sefydlu.
- Gwahardd busnesau neu sefydliadau rhag gwaredu gwastraff bwyd a gludir i'r safle neu a gynhyrchir ar y safle drwy'r carthffosydd cyhoeddus.
- Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau i atal llosgi mathau penodol o wastraff.

Rhan 5: Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn

Mae'r rhan hon yn gwneud sawl newid i *Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967* i roi pwerau amgylcheddol newydd i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Gorchmynion Unigol a Gorchmynion Rheoleiddiedig.

Gorchmynion Unigol yw'r Gorchmynion lle rhoddir hawliau unigryw i unigolion bysgota neu ffermio pysgod cregyn ar ran penodol o wely'r môr, e.e. drwy ddatblygu gwelyau cregyn gleision neu welyau wystrys. Mae Gorchmynion Rheoleiddiedig fel arfer yn Orchmynion a roddir i gorff fel Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn rheoleiddio'r mynediad at bysgodfa pysgod cregyn, fel cael mynediad at welyau cocos. Mae'r Bil yn rhoi pwerau newydd i Weinidogion drwy:

- Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnwys darpariaeth o fewn Gorchymyn Unigol neu Reoleiddio wrth ei gyflwyno i warchod yr amgylchedd morol ac unrhyw safle morol Ewropeaidd yr effeithir arno.
- Rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiadau gwarchod safleoedd pan fo niwed wedi'i wneud, neu pan fo niwed yn debygol o ganlyniad i weithredu Gorchymyn Unigol neu Orchymyn Rheoleiddio ar safle morol Ewropeaidd.
- Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru amrywio neu ddirymu Gorchymyn o dan Adran 1 i ystyried materion sy'n codi mewn hysbysiad gwarchod safle.

Rhan 6: Trwyddedau Morol

Mae'r rhan hon yn ehangu pwerau Gweinidogion Cymru neu gyrff a ddirprwyir i gyflwyno trwyddedau morol ar eu rhan i godi tâl am y gwasanaethau a ddarperir i ymgeiswyr.

Mae'n gwneud hyn drwy:

- Ganiatáu i daliadau gael eu codi am gymorth cyn gwneud cais, monitro'r defnydd o drwydded unwaith y'i cyflwynir ac amrywio, dirymu neu drosglwyddo trwydded gyfredol.
- Darparu pwerau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr mewn rhai achosion dalu blaendal wrth wneud cais am drwydded forol a gwrthod parhau â'r cais hyd nes y telir blaendal.

Rhan 7: Amrywiol

Mae'r rhan hon yn darparu ar gyfer sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol ar gyfer Cymru, darparu pwerau newydd o ran mynediad mewn perthynas â glanhau ffosydd, darpariaethau i ddiwygio'r mater o ran hysbysiadau draenio mewnol a darpariaethau i awdurdodau lleol apelio yn erbyn Cyfoeth Naturiol Cymru yn codi ardollau arbennig mewn perthynas â'i rôl draenio mewnol.

Mae'n gwneud hyn drwy:

- Sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol i gynghori Gweinidogion Cymru ar beryglon llifogydd ac erydu arfordirol a rhoi pwerau rheoleiddio i Weinidogion Cymru sefydlu gofynion aelodaeth a thrafodion priodol y Pwyllgor.
- Dirymu'r gofyniad i Cyfoeth Naturiol Cymru hysbysebu amrywiaeth o hysbysiadau mewn perthynas â'i swyddogaethau draenio mewnol mewn papurau nwydd lleol a'r London Gazette.
- Darparu ffordd i awdurdodau lleol apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn unrhyw ardollau arbennig a godir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

- Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru fynd i mewn i eiddo i archwilio a yw'r perchennog tir wedi cydymffurfio â Gorchymyn gan Dribiwnlys Tir Amaethyddol i lanhau ffosydd a gwella'r draenio ar y tir.

Atodlenni

- Atodlen 1: Mae'n cynnwys darpariaethau mewn perthynas â'r defnydd o'r gyfundrefn Sancsiynau Sifil i orfodi taliadau am fagiau siopa.
- Atodlen 2: Mae'n cynnwys rhestr o'r holl ddiddymiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol gyfredol a gaiff eu gwneud gan y Bil.

3. Goblygiadau Ariannol y Bil

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol manwl i'w gael yn y Memorandwm Esboniadol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyflwyno costau a manteision yr opsiynau a ystyriwyd o dan bob adran sydd wedi'i strwythuro o amgylch **saith prif Ran y Bil**. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnig amryw o ddewisiadau o dan bob adran o'r Bil ynghyd â chostau a manteision pob opsiwn ac asesiad o'r graddau y maent yn bodloni nodau'r Bil.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn egluro ei fod wedi cael **ei lywio gan waith a wnaed gan dri set o ymgynghorwyr annibynnol**. Helpodd Efec gyda'r adran rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, gweithiodd AEA Ricardo ar y taliadau am fagiau siopa a darparodd Eonomia Consulting and Research Ltd waith modelu senario ar gyfer yr adran casglu a gwaredu gwastraff.

3.1. Costau a manteision ychwanegol yr opsiynau a ffefrir

Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o'r **costau ychwanegol a'r manteision** a fydd yn codi o ganlyniad i weithredu'r opsiynau a ffefrir a ddisgrifir yn y Memorandwm. Cyfrifwyd y costau a'r manteision dros gyfnod o 10 mlynedd (2015-2025), gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt gwerth 3.5%, fel yn Llyfr Gwyrdd y Trysorlys. Golyga hyn y caiff yr holl gostau a'r manteision eu cyflwyno fel gwerth presennol.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyfrifo bod **cyfanswm y gost ychwanegol dros 10 mlynedd gyntaf y Bil tua £291 miliwn, sy'n cael ei gydbwyso gan arbedion o £359 miliwn, i roi arbediad net o £68 miliwn**. Mae'r Asesiad yn egluro bod y **cyfnod 10 mlynedd** wedi cael ei ddewis i alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgorffori'r dulliau newydd sydd wedi'u cynnwys yn y Bil.

Dengys Tabl 1 isod mai Rhan 1 y Bil, **Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol, sy'n achosi'r gost gyffredinol ychwanegol fwyaf o hyd at £4.5 miliwn**. Mae hynny'n cynnwys Llywodraeth Cymru yn datblygu Polisi Cyfoeth Naturiol Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal. Mae'r Asesiad yn nodi y gallai'r opsiwn a ffefrir arwain at fanteision o dros £2 biliwn y flwyddyn, fodd bynnag, **nid yw'n bosibl i bennu cyfran y manteision y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r Bil** ac felly nid yw'r ffigurau hyn wedi'u cynnwys yn y tabl crynodeb. Yn yr un modd, ar gyfer Rhan 2 o'r Bil sy'n ymwneud â **Newid yn yr Hinsawdd, nid yw'r manteision ariannol wedi'u cynnwys yn y tabl crynodeb** am mai ffigur amcangyfrif ar gyfer y DU sydd ar gael, ac nid ffigur ar gyfer Cymru.

Amcangyfrifir y bydd Rhannau eraill y Bil yn niwtral o ran cost neu y byddant yn sicrhau arbedion. Amcangyfrifir y bydd Rhan 4, **Casglu a Gwaredu Gwastraff, yn arbed £58.7 miliwn** dros 10 mlynedd, yn bennaf oherwydd yr amcangyfrif o £139.8 miliwn mewn manteision amgylcheddol ac arbedion ar gyfer cwmnïau

rheoli gwastraff o £70.7 miliwn. Mae Rhan 3 o'r Bil, sy'n gosod isafswm taliad ar bob math o fag siopa, yn amcangyfrif arbed £8.3 miliwn. Ar ben hynny, byddai gan werthwyr ddyletswydd i roi eu henillion net o'r taliadau am fagiâu siopa i achosion da, gan arbed £7.5 miliwn ychwanegol.

Tabl 1: Costau a manteision ychwanegol yr opsiynau a ffefrir fesul maes polisi; 2016-17 i 2025-26

Maes polisi	Cost	Mantais	Cost/Mantais net (negyddol)	<i>£m</i>
1) Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol	4.5	Nid yw'n ffigur cadarn		4.5
2) Newid yn yr hinsawdd	2.1	Dim gwerth ariannol		2.1
3) Isafswm tâl ar bob math o fag siopa	123.8	-132.0		-8.3
3) Defnyddio'r taliadau am fagiâu siopa ar gyfer achos da	1.2	-8.7		-7.5
4) Casglu a Gwaredu Gwastraff	158.9	-217.6		-58.7
5) Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn	0.0	0.0		0.0
6) Trwyddedu Morol	0.7	-0.7		0.0
7) Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru	0.0	0.0		0.0
7) Bwrdd Draenio Mewnol	0.0	0.0		0.0
7) Draenio Tir	0.0	-0.1		-0.1
CYFANSWM	291.1	-359.1		-68.0

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Memorandwm Esboniadol – Bil yr Amgylchedd \(Cymru\)](#) – tabl 42

3.2. *Costau a manteision net ychwanegol yr opsiynau a ffefrir fesul grŵp neu'r sefydliad yr effeithir arno*

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn dadansoddi'r costau fesul grŵp a sefydliad yr effeithir arnynt gan bob opsiwn yn y Bil, dangosir hynny yn Nhabl 2 isod.

Tabl 2: Costau a manteision ychwanegol yr opsiynau a ffefrir fesul grŵp neu'r sefydliad yr effeithir arno; 2016-17 i 2025-26

Grŵp neu gorff yr effeithir arnynt (maes polisi)	Cost	Mantais	Cost/Mantais net (negyddol)	<i>£m</i>
Defnyddwyr (3)	115.5	-		115.5
Busnes Rheoli Gwastraff (4)	155.0	-70.7		84.3
Gweithgynhyrchwyr (3)	8.3	-		8.3
Cyfoeth Naturiol Cymru (1) (4) (6) (7)	5.4	-0.7		4.8
Cynhyrchwyr Gwastraff Busnes (4)	3.3	-		3.3
Llywodraeth Cymru (1) (2) (4) (7)	2.4	-0.1		2.3
Awdurdodau Lleol (3)	0.4	-		0.4
Cyfanwerthwyr (3)	-	-0.1		-0.1
Awdurdodau Carthffosiaeth (4)	-	-7.1		-7.1
Refeniw Treth (3)	-	-19.3		-19.3
Manwerthwyr (3)	0.8	-37.7		-36.9
Rhoddion Elusennol (3)	-	-75.5		-75.5
Effaith Amgylcheddol (3) (4)	-	-148.0		-148.0
CYFANSWM	291.1	-359.1		-68.0

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Memorandwm Esboniadol – Bil yr Amgylchedd \(Cymru\)](#) – tabl 42

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif y byddai'r gostyngiad yn y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn lleihau swm y dreth tirlenwi y mae'n ofynnol i fusnesau rheoli gwastraff ei dalu gan £172.5 miliwn dros y cyfnod 10 mlynedd. Nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y tablau am y byddai'n daliad trosglwyddo, i'r Trysorlys i ddechrau ac o Ebrill 2018 i Lywodraeth Cymru.

3.3. Costau ychwanegol net

Mae Tabl 2 yn dangos y byddai **amcangyfrif gost o £115.5 miliwn i ddefnyddwyr** dros 10 mlynedd gyntaf y Bil oherwydd y costau ychwanegol o brynu mathau eraill o fagiau siopa, a fydd yn ei dro yn cynyddu rhoddion elusennol os defnyddir y pwerau gwneud rheoliadau hyn.

Amcangyfrifir y bydd busnesau rheoli gwastraff yn wynebu costau ychwanegol net o £84.3 miliwn yn yr un cyfnod oherwydd y gwaharddiad ar losgi ac anfon deunyddiau penodedig i safleoedd tirlenwi, sy'n golygu y disgwylir i gostau cyfalaf a chostau gweithredu fod yn uwch. **Disgwylir i weithgynhyrchwyr wynebu costau ychwanegol o £8.3 miliwn** yn 10 mlynedd gyntaf y Bil o ganlyniad i ostyngiad yn eu refeniw oherwydd y taliadau ehangach am fagiau siopa. **Amcangyfrifir y bydd gan fusnesau cynhyrchu gwastraff** (sy'n cynnwys safleoedd masnachol a diwydiannol yn ogystal â sefydliadau sector cyhoeddus ac elusennau) gostau o £3.3 miliwn o ran costau gweinyddol i newid i system biniau newydd, gan gynnwys prynu biniau newydd yn ogystal â chostau parhaus yn gysylltiedig â chasglu eu deunyddiau gwastraff.

Disgwylir i Cyfoeth Naturiol Cymru ysgwyddo costau net ychwanegol o £4.8 miliwn o dan sawl Rhan o'r Bil, gan gynnwys cyhoeddi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal o dan Rhan 1 - Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol ac o ran arolygu eiddo annomestig i orfodi'r gofyniad i ddiolli gwastraff o dan Rhan 4 - Casglu a Gwaredu Gwastraff. O dan Rhan 6 - Trwyddedu Morol, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dweud y dylai'r costau i Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn niwtral, am y bydd yn gallu adennill mwy o gostau a bydd y costau yn cael eu talu gan ddefnyddwyr y system trwyddedu morol.

Yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol **bydd Llywodraeth Cymru yn wynebu costau net ychwanegol o £2.3 miliwn**, yn cynnwys £2.1 miliwn ar gyfer costau gosod a gweinyddu'r cyllidebau carbon, ynghyd â cheisio cyngor annibynnol ar y lefel y dylid gosod y cyllidebau carbon. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfrannu £0.2 miliwn mewn amser staff i ddatblygiad y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol.

Caiff awdurdodau lleol eu crybwyll yn yr adran ar daliadau am fagiau siopa i fynd at achosion da, a bydd **cost £0.4 miliwn arnynt ar gyfer monitro a gorfodi**.

3.4. *Gwerth ariannol y manteision*

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi gwerth ariannol manteision ar gyfer nifer o rannau, yn benodol ar gyfer Rhan 3 – Bagiau Siopa (£132 miliwn a £8.7 miliwn) a Rhan 4 – Casglu a Gwaredu Gwastraff (£217.6 miliwn). Yn yr adran ar fagiau siopa, rhan fwyaf y manteision yw'r rhoddion elusennol a'r refeniw treth. Yn yr adran Casglu a Gwaredu Gwastraff, y budd i'r amgylchedd yw'r fantais fwyaf, wedi'i dilyn gan fanteision i fusnesau rheoli gwastraff ac awdurdodau carthffosiaeth.

Yn y tabl crynodeb, mae'n dweud bod cyfanswm cyffredinol manteision y Bil ond yn cynnwys gwerth ariannol y manteision ac mae'n dod i'r casgliad:

Inclusion of non-monetised benefits would be anticipated to greatly increase this figure.
(Troednodyn tabl 42)

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan, fel gyda'r rhan fwyaf o Filiau, na fu modd mesur y manteision sy'n gysylltiedig â'r amrywiol opsiynau, a chyflwynwyd disgrifiad ansoddol wrth ochr llawer o'r manteision.

3.5. *Is-ddeddfwriaeth*

Mae sawl rhan yn y Bil lle nad yw manylion y rheoliadau eto wedi cael eu penderfynu, a byddant yn effeithio'n sylweddol ar y costau:

- Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn esbonio y bydd costau cyflawni ar gyfer y targedau newid yn yr hinsawdd a'r cyllidebau carbon yn cael eu pennu ar sail y lefelau y caiff y targedau a'r cyllidebau eu gosod, a gaiff eu pennu mewn is-ddeddfwriaeth. Felly bydd angen gwerthuso costau a manteision a gofyn am gyngor annibynnol cyn cyflwyno cyllidebau carbon ffurfiol.
- Mae angen rheoliadau i osod isafswm taliadau am fathau eraill o fagiau siopa, yn ogystal â bagiau siopa untro, ac mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn edrych ar nifer o opsiynau posibl gan dybio y bydd y pwerau gwneud rheoliadau hyn yn cael eu defnyddio. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y byddai Asesiad Effaith Rheoleiddiol manwl arall yn cael ei gynnal os bydd penderfyniad i fynd ar drywydd y bwriad polisi hwn yn y dyfodol.
- O ran Casglu a Gwaredu Gwastraff, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi o dan y Dadansoddiad Opsiynau y caiff Asesiad Effaith Rheoleiddiol manwl ei gynnal ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth.

Hefyd, nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys **amcangyfrif o'r costau i Lywodraeth Cymru o ddatblygu is-ddeddfwriaeth** tra bo [Memorandwm Esboniadol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol \(Cymru\)](#) wedi darparu cost amcangyfrif o £13,412 i Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â gorchmynion gwahardd a diogelu teitlau ([paragraff 7.5](#))

4. Ymatebion i'r Bil

4.1. *Rhanddeiliaid*

Fe wnaeth y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd dderbyn 55 o ymatebion i'w [ymgyngoriad](#) ar y Bil gan ystod eang o randdeiliaid. Roedd rhai ohonynt yn canolbwyntio ar agweddau penodol o'r Bil.

4.2. *Aelodau'r Cynulliad*

Cyflwynwyd y Bil yn y Cyfarfod Llawn gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, ar 12 Mai 2015. Cafodd y materion a ganlyn eu codi gan Aelodau:

Fe wnaeth Andrew RT Davies, Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig, ofyn am eglurhad ar nifer o agweddau ar y Bil ac roedd yn bryderus ynghylch gallu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni rhai agweddau ar y ddeddfwriaeth. Gofynnodd i'r Gweinidog egluro pwy fyddai'n gyfrifol am yr adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a Datganiadau Ardal, yr oedd yn credu y dylid eu llunio yn annibynnol ar y llywodraeth.

Gofynnodd sut y byddai'r targedau statudol, gyda chefnogaeth cyllidebu carbon y cyfeiriodd y Gweinidog ato, yn gweithredu yn ymarferol. Roedd hefyd yn bryderus ynghylch gallu'r sector ailgylchu a chyrrff cyhoeddus i gyflawni rhai o'r targedau a gyflwynwyd gan y Bil. Roedd yn credu bod angen i'r cyhoedd gael gwell gwybodaeth ac addysg i greu Cymru gynaliadwy ac ecogyfeillgar.

Dywedodd y **Gweinidog** er na chafwyd amser i gydgrynhoi'r nifer fawr o gyfreithiau amgylcheddol, un o amcanion Llywodraeth Cymru yw dod â'r ddeddfwriaeth bresennol at ei gilydd mewn un lle, gydag un asiantaeth (Cyfoeth Naturiol Cymru) yn cysylltu â hi.

Roedd Llyr Gruffydd, llefarydd yr wrthblaid ar Gymunedau Cynaliadwy a Bwyd, yn credu y dylid cynnwys targedau statudol yn y Bil i adfer bioamrywiaeth. Croesawodd targedau statudol ar newid hinsawdd, ond roedd am sicrhau eu bod yn briodol ac yn ddigonol, ac yn parhau felly yn y dyfodol. Roedd yn cwestiynu'r rhesymeg dros ehangu capasiti llosgi gwastraff yng Nghymru pan fo'r Bil yn ceisio cyfyngu ar faint y gellir ei losgi.

Gofynnodd i ba raddau roedd Llywodraeth Cymru wedi cyd-drefnu ei raglen o ddeddfwriaeth amgylcheddol, a dywedodd y gall y nifer fawr o bwerau is-ddeddfwriaeth yn y Bil guddio bwriadau'r Gweinidog. Holodd y Gweinidog am y cyfyngiadau o ran adnoddau yn Cyfoeth Naturiol Cymru a'i allu i gyflawni ar y Bil, ac am yr hyn yr oedd yn disgrifio fel newid o ran ffocws oddi wrth cadwraeth natur tuag at reoli adnoddau naturiol.

Dywedodd y **Gweinidog** bod Llywodraeth Cymru yn cydlynu ei deddfwriaeth amgylcheddol, ond bod angen iddo sicrhau bod pob darn o ddeddfwriaeth yn gweithio ar ei ben ei hun. Roedd yn anghytuno â'r sylwadau am Cyfoeth Naturiol Cymru.

Roedd Joyce Watson, Llafur Cymru, eisiau gwybod mwy am bwyllgor llifogydd ac arfordir Cymru, ac yn benodol, sut y bydd yn gweithredu a sut bydd cymunedau lleol yn gallu rhyngweithio ag ef. Roedd hi'n poeni am gynllunio ar gyfer draenio dŵr wyneb er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd oherwydd glaw trwm. Roedd yn dymuno cryfhau'r trefniadau trwyddedu ar gyfer gwaredu gwastraff i fynd i'r afael â'r thipio anghyfreithlon.

Roedd William Powell, Gweinidog yr Wrthblaid dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd, Amaethyddiaeth a Materion Gwledig, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn pryderu ynghylch gallu CNC i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Bil. Roedd yn credu y dylai targedau statudol ar ddiogelu bioamrywiaeth fod ar wyneb y Bil i sicrhau bod rhywogaethau sydd eisoes wedi'u colli yn cael eu hadfer, ac y dylai'r Bil gynnwys ymrwymadau cryfach o ran effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio'r sector pŵer.